**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

12 Hydref 2016

Annwyl Gyfaill

**Adroddiad Blynyddol 2015-16 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

Hoffwn dynnu eich sylw at gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol 2015-16 Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau statudol[1] dirprwyedig ac yn nodi perfformiad AGGCC, graddfa ei busnes, a sut y cyflawnodd yr arolygiaeth ei dyletswyddau. Gellir gweld yr adroddiad yma: http://cssiw.org.uk/our-reports/?skip=1&lang=cy

Mae AGGCC yn gyfrifol am reoleiddio ac arolygu dros 6,200[2] o wasanaethau sy'n darparu dros 107,000 o leoedd. Yn ystod 2015-16, llwyddodd 90% o'r wasanaethau a reoleiddir a arolygwyd gan AGGCC i fodloni'r safonau gofal ac nid oedd angen camau gorfodi arnynt. Isod ceir dadansoddiad o berfformiad pob math o wasanaeth a arolygwyd:

- 94.6% o ofal dydd i blant (gan gynnwys gwarchodwyr plant)
- 95.1% o wasanaethau plant (cartrefi plant, maethu, ysgolion preswyl ac ysgolion arbennig preswyl)
- 84.7% o wasanaethau oedolion (cartrefi gofal, gofal cartref, lleoliadau oedolion).

Mae'r arfer o gomisiynu gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn parhau i fod yn her i awdurdodau lleol ac mae'r adroddiad yn galw am welliannau cyflymach er mwyn sicrhau marchnad fwy cynaliadwy a ffyniannus.

Mae'r adroddiad yn nodi'n eglur sut mae AGGCC yn trawsnewid ei busnes i fodloni'r cyfreithiau[3] newydd sy'n rheoleiddio ac arolygu ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys:

---

[1] **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng Gweinidogion Cymru a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru http://cssiw.org.uk/about/working-with-partners/health-care-inspectorate-wales-and-welsh-ministers-mou/?skip=1&lang=cy
[2] Ffigyrau fel ar 31 Mawrth 2016.
[3] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016, Mesur Plant a Theuluoedd 2010

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- ailgofrestru dros 4,200 o ddarparwyr gofal plant erbyn mis Ebrill 2016 i fodloni'r amodau newydd a chynyddu gwaith rheoleiddio i gynnwys plant hŷn dan 12 mlwydd oed a fframwaith arolygu newydd gyda dyfarniadau

- trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu ag aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol, gan gynnwys cyflwyno fframwaith arolygu ac adolygu perfformiad newydd i fesur hawliau a llesiant pobl.

Mae'r trawsnewidiad hwn yn parhau wrth i AGGCC baratoi ar gyfer rhoi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith.

Mae AGGCC yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn darparu sicrwydd i'r cyhoedd am ddiogelwch ac ansawdd gofal a gofal plant yn ogystal â gyrru gwelliant yn y gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd Prif Arolygydd AGGCC, Imelda Richardson, wedi ymddeol diwedd mis Medi ar ôl gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gwaith o reoleiddio ac arolygu gofal yng Nghymru yn ystod ei saith mlynedd yn y swydd.

Yn gywir



**Rebecca Evans AC/AM**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health